


JEFFREYS, GEORGE, y barwn Jeffreys 1af ('first baron Jeffreys of Wem') (1645 - 1689), barnwr



Enw: George Jeffreys
Dyddiad geni: 1645
Dyddiad marw: 1689
Priod: Anne Jeffreys (née Bludworth)
Plentyn: John Jeffreys
Rhiant: Margaret Jeffreys (née Ireland)
Rhiant: John Jeffreys
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: barnwr
Maes gweithgaredd: Cyfraith
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Ganwyd 15 Mai 1645 yn Acton, Wrecsam, chweched mab John Jeffreys a'i wraig Margaret, merch Syr Thomas Ireland, Bewsey, Lancashire ('a very pious good woman ' yn ôl ei mab). Ei daid oedd John Jeffreys (bu farw 1622), prif farnwr cychdaith Môn y sesiwn fawr; ef oedd y cyntaf i fabwysiadu cyfenw'r teulu, ef a osododd sylfeini stad Acton trwy ychwanegu a chadarnhau'r tiroedd a ddaliai y rhai hyn, disgynyddion Tudur Trefor (gyda'u harwyddair ' Pob dawn o Dduw'), yng nghaeau cyffredin ('comin') Wrecsam; trwy briodi, yn drydedd wraig iddo, weddw Syr Edward Trevor, Brynkinalt, ychwanegodd gyswllt â hen deulu lleol arall. Cafodd George Jeffreys ei addysg yn y blynyddoedd 1652-9 yn hen ysgol ei daid, sef ysgol Amwythig, a Philip Henry, cyfaill ei fam, yn ei arholi o bryd i bryd ynglyn â'i gynnydd yn yr ysgol; wedyn yn ysgolion S. Paul's (1659) a Westminster (1661); Trinity College, Caergrawnt (1662) (eithr ni chymerodd radd); ac yn yr Inner Temple (1663). Dechreu a ei yrfa gyfreithiol yn ninas Llundain pan ddaeth yn ' Common Sergeant ' (1671). Pan ddewiswyd William Dolben yn gofiadur yn hytrach nag ef yn 1676, troes ei wyneb tua'r llys; daeth yn ' Solicitor General ' i'r dug York (y brenin lago II wedi hynny) ac yn farchog yn 1677, yn gofiadur Llundain pan ymddiswyddodd Dolben (1678), yn brif farnwr cychdaith Caer yn 1680, yn bleidydd ar ran y Goron yng Nghyngor y Goron yn Llwydlo, ac yn ustus heddwch dros Sir y Fflint, ac yn farwnig yn 1681. Gan iddo gefnogi amcanion y brenin pan oedd Siarl II yn llywodraethu ar ei gyfrifoldeb ei hun (1681-5), a lago II hefyd yr un modd, fe gododd yn gyflym i fod yn arglwydd brif farnwr ac yn aelod o'r Cyfrin Gyngor (1683) ac o Dy'r Arglwyddi, ac yn arglwydd ganghellor (1685); eithr glynodd yn gadarn wrth Eglwys Loegr, a hyn, y mae'n debyg, ydoedd y rheswm paham y penderfynodd lago na allai ei wneuthur yn is-iarll Wrecsam ac yn iarll Fflint. Trosglwyddodd y sêl fawr o'i ofal o'r diwedd ym mis Tachwedd 1688 - dyma'r sêl a daflodd lago i afon Thames; eithr methodd yn ei ymdrech i ddilyn y brenin dros y môr, a bu farw yng ngharchar ar 18 Ebrill 1689. Ceir manylion am ei yrfa yn y *D.N.B.*

Er gwaethaf y gwenwyn gwleidyddol a oedd ynddo a'i dymer wyllt ac afreolus (a achosid i raddau gan y clefyd poenus y bu farw ohono yn annhymig pan nad oedd ond 44 oed), rhoddir canmoliaeth uchel i Jeffreys fel gwr o'r gyfraith gan gyfreithwyr eraill, e.e. gan yr arglwydd Birkenhead yn ei *Fourteen English Judges*, 1926, 84-6, 96-8. O safbwynt ei alwedigaeth, ac, ar y cyntaf, ar yr ochr wleidyddol, yr oedd yn chwyrn o elyniaethus yn erbyn Syr William Williams (1634 - 1700); ceisiodd ddistrywio gyrf hwnnw trwy ei ddirwyo yn drwm am gyhoeddi 'libel' yn 1680, a llawenychodd hefyd pan fethodd Williams, a oedd yn erlyn yn achos y Saith Esgob (1688), a chael eu dyfarnu'n euog. Un o'r saith hyn oedd William Lloyd, esgob Llanelwy, gwr yr oedd Jeffreys yn noddwr iddo ac yntau'n meddwl yn dda o'i noddwr, yn union fel y gwnâi cefnder Jeffreys, Syr John Trevor (1637 - 1717), a noddid hefyd gan Jeffreys. Eithr siomwyd yr esgob, fodd bynnag, pan obeithiodd y byddai i Jeffreys, yn rhinwedd ei swydd fel barnwr Caer, wrthweithio llacrywdd ustusiaid heddwch sir Ddinbych (a Griffith Jeffreys, siryf 1683, a nai i'r barnwr yn eu plith) trwy gymryd mesurau cryfion yn erbyn yr Anghydfurfwyr lleol; yn sesiwn yr Wyddgrug, 1682, rhoes ataliad ar y cyngaws yn erbyn Philip Henry a gadawodd i Ambrose Lewis, cyfaill Henry, fynd yn rhydd ar ôl ei ddwrdo yn unig; ysgolfeistr Piwritanaidd oedd Lewis a gydymffurfiasai yn 1662 ond a ddrwgdybid wedi hynny - ac yr oedd hyn i gyd yn digwydd ar adeg pan oedd peth cythrwil oherwydd araith a draddodasai dug Monmouth yng Nghaer.

Wedi marw ei wraig gyntaf priododd Jeffreys Anne, gweddw Syr John Jones, Ffonmon, Sir Forgannwg, mab Philip Jones (1618 - 1674), a oedd yn un o wyr pennaf Cromwell - yr 'arglwydd' Jones. Daeth yr arglwyddiaeth i ben pan fu farw John Jeffreys, mab yr arglwydd Jeffreys 1af; priododd ef ferch Philip, 7fed arglwydd Pembroke. Dilynodd John Jeffreys yn y llinach benteuluol ydoedd ei nai, Syr GRIFFITH JEFFREYS (bu farw 1695), 'Jacobite,' a ail-adeiladodd Acton Hall - yr oedd ei wraig, yr arglwyddes Dorothy Jeffreys (bu farw 1729), yn noddwr mawr i Wrecsam; eithr daeth y llinach i ben yn 1714 a gwerthwyd y stad yn 1747. Y mae darlun yr arglwydd Jeffreys 1af, gan Syr Godfrey Kneller, a arferai fod yn Acton, yn awr yn Erthig, gerllaw Wrecsam.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

H. M. Hyde, *Judge Jeffreys* (Llundain 1948)

Oxford Dictionary of National Biography, a'r ffynonellau a enwir yno

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1938, 195-205; 1948, 74-7, 79-80, a'r ffynonellau a enwir yno

A. N. Palmer, *History of the thirteen country townships of the old parish of Wrexham, and of the townships of Burras Riffri, Erlas, & Erddig Being the fifth and last part of "A history of the town and parish of Wrexham"* (1903), 169-72

A history of the older nonconformity of Wrexham and its neighbourhood being the third part of 'A history of the town and parish of Wrexham'(1888), 37

M. Henry, *An account of the life and death of Mr. Philip Henry minister of the Gospel, near Whitchurch in Shropshire Who dyed June 24. 1696 in the sixty fifth year of his age*, 1797, pennod vii

M. H. Lee, *Diaries and letters of Philip Henry, M.A. of Broad Oak, Flintshire, A.D. 1631-1696* (Llundain 1882), 324-5

Reports of the Historical Manuscripts Commission, Portland, iii, 388

T. Richards, *Wales under the Penal Code, 1662-1687* (1925), 17, 32, 42

G. T. Clark, *Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae* (1886), 215

Thomas Pennant, *A Tour (Tours) in [North] Wales*, 1883, i, 384-6

W. R. Williams, *The history of the Great Sessions in Wales, 1542-1830, together with the lives of the Welsh judges* (Brecknock 1899), 41-2, 93

The Home Counties Magazine, xii, 1-18, 81-100, 157-8

Archifau LIGC: NLW MS 11061D, NLW MS 11448C (4), NLW MS 11449E (4), NLW MS 12405E, NLW MS 12406E

Llawysgrifau Castell Fonmon 143-4, 2070, 2183-4, 2770

Llawysgrifau Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, letters C24, L393

Llawysgrifau Chirk Castle yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth E558, 6349

Llawysgrif Penrice a Margam yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru L161

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: "George Jeffreys

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q336556


Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA

x

Dodd, A. H., (1953). JEFFREYS, GEORGE, y barwn Jeffreys 1af ('first baron Jeffreys of Wem') (1645 - 1689), barnwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 4 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JEFF-GEO-1645>



Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu



LLYFRGELL
THE NATION



